



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Institute of Education
Addysg i Gymru Education for Wales

LLAWLYFR MODIWL

ECAD5009C

**Cylch 2 Astudiaethau Craidd:
Dysgwyr, Ysgolion a Chymunedau: Ble ydw
i'n addysgu?**

**BA ADDYSG GYNRADD
gyda Statws Athro Cymwysedig**

LEFEL 5

**YR ATHROFA
2023-24**

- Manylion cysylltu

Os bydd angen trafod rhywbeth sy'n ymwneud â'r modiwl arnoch, cysylltwch â:

Rachel Bendall (Arweinydd Modiwl)

rachel.bendall@uwtsd.ac.uk

2. Ein disgwyliadau

Gobeithiwn y byddwch yn mwynhau'r modiwl a'r cyfleoedd sydd gennych i gynnal ymchwil annibynnol ar destun o ddiddordeb personol.

Dylech:

- Wneud defnydd da o gyfleusterau ac adnoddau'r Brifysgol i'ch helpu gyda'ch gwaith ymchwil
- Mynychu pob darlith a thiwtorial
- Paratoi yn drwyadl a chyfrannu'n llawn mewn sesiynau
- Cadw cofnod o'ch presenoldeb mewn tiwtorialau
- Cynnal ymchwil gyda sylw dyladwy i foeseg
- Cyflwyno aseiniadau erbyn y dyddiad terfyn

Os gwelwch yn dda, darllenwch Ganllawiau'r Brifysgol i Fyfrwyr.

3. Amcanion a Deilliannau Dysgu

AMCAN(ION)

- Rhoi'r sgiliau angenrheidiol i ddarpar-athrawon ddadansoddi sut mae ffactorau diwylliannol, ieithyddol, crefyddol ac economaidd-gymdeithasol amrywiol yn dylanwadu ar faterion a datblygiad ysgol gyfan.
- Paratoi darpar-athrawon i allu cyfrannu at systemau ysgol a dyluniad cwricwlwm sy'n diwallu anghenion yr ysgol a'i chymuned.

DEILLIANNAU DYSGU

Ar ôl cwblhau'r modiwl hwn yn llwyddiannus, dylai'r myfyriwr allu dangos y gallu i:

- werthuso sut mae gwahanol ysgolion yng Nghymru yn ymgysylltu â, ac yn diwallu anghenion eu cymunedau, trwy ymchwilio i arfer da;
- nodi a dadansoddi sut mae meysydd sy'n gysylltiedig â chyfiawnder cymdeithasol yn dylanwadu ar faterion ysgol gyfan, er enghraifft, cynwysoldeb, amrywiaeth a thegwch;
- archwilio sut mae ffactorau diwylliannol, ieithyddol, crefyddol ac economaidd-gymdeithasol amrywiol yn dylanwadu ar yr amgylchedd dysgu a sut mae hyn yn cael ei reoli'n effeithiol mewn ystafell ddosbarth.

Cysylltlad â'r pedwar diben yn Cwricwlwm i Gymru 2022:

Er mwyn i blant a phobl ifanc ddatblygu:	Perthynas yn y modiwl hwn: Bydd myfyrwyr yn gallu:
Yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes.	Deall sut y gall credoau a thybiaethau personol ddylanwadu ar ddysgu.
Yn gyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith.	Datblygu'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen i gynllunio cyfleoedd dysgu creadigol sy'n ennyn diddordeb y gymuned ehangach.
Yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd.	Mabwysiadu rôl athro proffesiynol wrth ddeall sut i ffurfio perthnasoedd ystyrlon â dysgwyr, staff a rhieni.
Yn unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.	Deall sut mae iechyd a lles yn cael ei ddeall a'i ddatblygu trwy bolisi'r ysgol gyfan.

Perthynas â'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth (SAC)

Safon	Llinyn a Disgrifydd
Addysgeg: Hyrwyddo	Pedwar diben i ddysgwyr Mae'r darpar athro'n arddangos gwybodaeth am anghenion pob dysgwr, a dealltwriaeth o'r anghenion hynny, wrth gynllunio, paratoi ac addysgu. Hefyd, wrth wneud hyn, mae'n sicrhau mai'r pedwar diben sy'n llywio profiadau dysgu.
Addysgeg: Hyrwyddo	Profiadau dysgu cyfunol Mae'r darpar athro'n deall sut i ddewis, defnyddio a chyfiawnhau ystod o ddulliau addysgol creadigol er budd pob dysgwr.
Addysgeg: Hyrwyddo	Cyd-destunau bywyd go iawn, dilys Mae'r darpar-athro'n arddangos gwybodaeth am ddefnyddio cyd-destunau go iawn, a hynny fel rhan naturiol o'r profiad dysgu. Mae hyn yn ehangu profiad diwylliannol, ieithyddol, crefyddol ac economaidd-gymdeithasol y dysgwr, ac yn rhoi enghreifftiau ymarferol o gysyniadau a haniaethau.
Addysgeg: Mireinio	Cynnwys partneriaid mewn dysgu Deall pwysigrwydd cynnwys rhieni/gofalwyr a phartneriaid eraill mewn ffordd gadarnhaol ac achub ar gyfleoedd i arsylwi ar brosesau, a'u gwerthuso.

Addysgeg: Dylanwadu	Herio a disgwyliadau Er mwyn ysgogi'r dysgwyr i gyflawni, mae'r heriau a'r disgwyliadau y mae'r darpar athro'n eu gosod ar lefel briodol ar gyfer yr ystod o alluoedd a nodweddion sydd ymhlith y dysgwyr.
Arweinyddiaeth	Cymryd cyfrifoldeb personol Mae'r darpar athro'n arddangos agweddau ac ymddygiadau proffesiynol, gan ddatblygu cydberthnasau cadarnhaol gyda dysgwyr, rhieni/gofalwyr a chydweithwyr, sy'n dangos ymrwymiad personol i'r egwyddorion sylfaenol, sef tegwch a gwneud y mwyaf o botensial pob dysgwr.
Arweinyddiaeth	Arfer cyfrifoldeb corfforaethol Mae'r darpar athro'n ymwybodol o'i gyfrifoldebau contractiol, bugeiliol, iechyd a diogelwch, cyfreithiol a phroffesiynol, ac mae'n eu deall.
Arweinyddiaeth	Cefnogi rolau arweinyddol ffurfiol Mae'r athro'n arddangos dealltwriaeth o natur cyfrifoldebau o fewn ac ar draws timau ac o gyfraniadau unigolion tuag at ethos yr ysgol a gwireddu gweledigaeth yr ysgol yn llwyddiannus.

4. Cyflwyniad i'r modiwl

Bydd y modiwl hwn yn datblygu eich dealltwriaeth o sut mae ysgolion yn gweithredu polisïau cenedlaethol ac yn cyflwyno cwricwlwm i ddiwallu anghenion cymuned yr ysgol. Bydd yn dyfnhau'ch dealltwriaeth o'r gwahanol fathau o ysgolion a chymunedau, a sut maen nhw'n mynd i'r afael â, datblygu a gweithredu blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer y cymunedau maen nhw'n eu gwasanaethu.

Byddwch yn cael cyfle i archwilio cysyniad ysgol a'i chymuned ymhellach trwy ystyried y gwahanol ddiffiniadau o gymuned a'i rhanddeiliaid perthnasol. Er enghraifft, tystio i ymwybyddiaeth o'r heriau sy'n wynebu ysgolion wrth wneud y cwricwlwm yn hygyrch ac yn berthnasol, gyda gwahanol grwpiau dysgwyr gan gynnwys grwpiau lleiafrifoedd ethnig (e.e. ceiswyr lloches); mewnfudwyr; teithwyr sipswyn; y rhai sy'n symud i ysgolion a chymunedau Cymraeg; y rhai heb Saesneg fel iaith gyntaf. Byddwch hefyd yn cael cyfle i gymharu a gwerthuso'r dulliau a ddefnyddir mewn systemau addysg cenedlaethol eraill i ddefnyddio ac ymgysylltu â'u cymunedau. Bydd hyn yn cefnogi'ch dull o adnabod a chymhwyso'r hyn y gellir ei ddysgu o ddulliau gwledydd eraill i wella profiadau yn system Cymru.

Bydd ystyriaeth feirniadol a dadansoddiad o sut mae ysgolion yn sicrhau bod dysgwyr yn dod yn ddinasyddion moesegol, gwybodus sy'n barod i fod yn ddinasyddion eu cymuned, Cymru a'r byd yn cael eu datblygu trwy astudio'r modiwl hwn. Mae hyn yn cynnwys cyfeiriad at faterion cynaliadwyedd ac amgylcheddol sy'n ymwneud â chymunedau ysgolion; cyfiawnder cymdeithasol a thegwch; a chydlyniant cymunedol. Byddwch hefyd yn ymchwilio i sut mae ysgolion yn hyrwyddo ac yn sicrhau bod dysgwyr yn unigolion iach, hyderus sydd yn barod i fyw bywydau boddhaus fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas. Datblygir myfyrdod ar fentrau a pholisïau cenedlaethol a ddefnyddiwyd i ddatblygu'r agweddau hyn yn y dysgwr a'r gymuned ehangach.

Bydd cyfle i ystyried ymgysylltiad y gymuned a dadansoddi enghreifftiau o brosiectau ymgysylltu ag ysgolion ac astudiaethau achos sydd wedi dangos effaith gadarnhaol ar ddysgu. Yn rhannol trwy adolygiad o astudiaethau achos ysgolion llwyddiannus, byddwch yn datblygu ethos personol blaengar a rhagweithiol i feithrin ac ysgogi dysgwr Cymraeg, rhifog, llythrennog a chymwys yn ddigidol a chwricwlwm perthnasol.

5. Crynodeb o'r modiwl

Bod yn foesegol	
Bod yn ymchwilydd medrus	
Bod yn sgeptigol	
Bod yn rhan o broffesiwn ymholgar	

Sesiwn	Cynnwys
1 & 2	Mewnbwn cyn i'r modiwl ddechrau Sesiynau 2 x 2 awr yw'r rhain sy'n eich cyflwyno i'r aseiniad ar gyfer y modiwl hwn ac yn eich cyfeirio at wybodaeth allweddol y bydd angen i chi ei chasglu cyn i'r modiwl ddechrau. Beth yw ECAD5009/C? - Cyflwyniad i'r modiwl: - Staff - Nodau'r modiwl - Cynnwys y modiwl - Asesiad - Sut mae fy mhrofiad o addysgu dysgwyr 7-11 oed yn cysylltu gyda'r modiwl hwn? - Tasg Gyfeiriol 1 – Adfyfrio & <i>Jamboard</i> Mewnbwn aseiniad - Manyleb - Strwythur - Asesu - Tasg Gyfeiriol 2 – ‘Beth ydych chi wedi'i weld ar leoliad?’

3 16/04/24	Ail-ymweld gyda'r cyflwyniad i'r modiwl & mewnbwn aseiniad mwy manwl: • Manyleb • Strwythur • Asesu • Beth yw prosiect ysgol-gymuned? • Adborth o Dasg Gyfeiriol 2 'Beth ydych chi wedi'i weld ar leoliad?' • Enghreifftiau o aseiniadau blaenorol
4 16/04/24	Beth yw prosiect ysgol-gymuned, a sut mae ei gynllunio a'i werthuso? • Ysgol Gynradd Pontarddulais – '<i>Working Whispers</i>' • Cynllun Datblygu'r Ysgol (CDY) • Y Pedwar Diben fel gyrrwyr • Penderfynu ar nodau a gweithgareddau • Mesur effaith a gwerthuso • Tynnu mewbwn y dydd ynghyd: Deigram Lotws • Tasg Gyfeiriol 3 – Dadansoddiad SWOT
5 18/04/24	Beth mae'n golygu i addysgu yng Nghymru? Rhan 1 • Cymraeg: 2050 • Bil Cymraeg mewn Addysg • Cymru Wrth-Hiliol: 2030 • Adroddiad Terfynol yr Athro Charlotte Williams • Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hil (REAP) Cymru • DARPL
6 18/04/24	Beth mae'n golygu i addysgu yng Nghymru? Rhan 2 Siaradwr gwâdd: Dr Huw Griffiths • Cynefin, perthyn a chynhwysiant
7 18/04/24	Beth mae'n golygu i addysgu yng Nghymru? Rhan 3 • Beth mae'r (a nad yw'r) ystadegau yn dweud wrthym? • Syniadau sy'n gysylltiedig â Chyfiawnder Cymdeithasol (<i>Social Justice</i>) • Sut mae fy mhrosiect ysgol-gymuned i yn hybu cyfiawnder cymdeithasol? • Tynnu mewbwn y dydd ynghyd: Deigram Lotws • Tasg Gyfeiriol 4 – Darllen hanfodol & Padlet
8 22/04/24	Beth yw'r cyfleoedd a'r rhwystrau sy'n perthyn i ymgysylltiad ysgol a chymuned? Rhan 1: Ffactorau sy'n effeithio ar ymgysylltiad teuluoedd • Ymgysylltiad neu ymglymiad? • Sut mae ysgolion yn annog ymgysylltiad a/neu ymglymiad teuluoedd?

	Archwiliad o ystod o ffactorau a allai effeithio ar ymgysylltiad a/neu ymglymiad teulu.
9 22/04/24	Beth yw'r cyfleoedd a'r rhwystrau i ymgysylltiad ysgol-gymuned? Rhan 2: Cindy Hunt & Claire Arnold (fideos) - Ysgolion cymunedol a phrosiectau - Democrateiddio - CDPau - Cydlyniant Cymdeithasol - Astudiaeth achos: Ysgol Priordy Monkton
10 22/04/24	Beth yw'r cyfleoedd a'r rhwystrau i ymgysylltiad ysgol-gymuned? Rhan 3: - Tynnu mewbwn y dydd ynghyd: Deigram Lotws - Pa gyfleoedd a rhwystrau mae fy mhrosiect ysgol-gymuned i yn eu datguddio? - Tasg Gyfeiriol 5 – ail ymweld gyda'r Ddeddf ADY a Thasg Gyfeiriol 4
11 23/04/24	Sut mae ysgolion yn cynllunio cwricwlwm sy'n hygyrch a pherthnasol? Rhan 1 Siaradwr gwâdd: Mathew Davies Cynllunio ar gyfer cynhwysiant
12 23/04/24	Sut mae ysgolion yn cynllunio cwricwlwm sy'n hygyrch a pherthnasol? Rhan 2 - Gweithgaredd cynllunio ar gyfer cynhwysiant: Ffocws ar strategaethau cynhwysol - Pa mor hygyrch a pherthnasol yw fy mhrosiect ysgol-gymuned i? - Tynnu mewbwn y dydd ynghyd: Deigram Lotws - Tasg Gyfeiriol 6 – Darllen am GGM yng Nghwricwlwm i Gymru
13, 14, 15 25/04/24	Cyfleoedd dysgu tu hwnt i glwyd yr ysgol - Archwiliad o gyfleoedd dysgu y tu hwnt i glwyd yr ysgol - Ymweliad rhithwir ystafell drochi - Cynllunio cyfle dysgu y tu hwnt i glwyd yr ysgol - Sut mae fy mhrosiect ysgol-cymuned fy hun yn cefnogi dysgu y tu hwnt i glwyd yr ysgol? - Tynnu mewnbwn y diwrnod ynghyd: Deigram Lotus Cynllunio cynnig prosiect ysgol-gymuned fy hun - Pwy? Beth? Pam? Sut? - Sut mae fy narlithoedd yn cysylltu gyda fy aseiniad? - Dod â'r modiwl cyfan at ei gilydd: Deigram lotws - Ail ymweld gydag enghreifftiau o aseiniadau - Tasg Gyfeiriol 7 – cwblhau eich syniad am brosiect ysgol-gymuned eich hun

07/05/24	Cymorth aseiniad (opsiynol) 10am-12pm Cohort cyfan a sesiynau grwpiau bach/unigol Teams
----------	--

6. Tasgau ac arweiniad asesu

CÔD Y MODIWL	TEITL Y MODIWL	DULL ASESU
ECAD5009C	Cylch 2 Astudiaethau Craidd: Dysgwyr, Ysgolion a Chymunedau: Ble ydw i'n dysgu?	Cydran Asesu 1 - 100% Ymateb ysgrifenedig - Cynnig ar gyfer prosiect cymunedol ysgol (4000 gair). Dyddiad cau: 15/05/24 (23.59)

Os gwelwch yn dda, gweler y ffurflen Manyleb Asesu (ar Moodle) am wybodaeth a chanllawiau asesu pellach.

7. Rhestr Ddarllen

Angenrheidiol

Arshad, R., Wrigley, T. and Pratt, L. (eds) (2012) *Social Justice re-examined: dilemmas and solutions for the classroom teacher*. London: IOE Press.

Athey, C. (2007) *Extending Thought in Young Children: a parent teacher partnership*. [2nd Edition]
 London: Paul Chapman Publishing.

Children's Rights: a Teacher's Guide available at:

<http://www.savethechildren.org.uk/resources/online-library/childrens-rights-a-teachers-guide>

Morris, D. (ed.) (2010) *Welsh in the Twenty-First Century*. Cardiff: University of Wales Press.

Rigney, D. (2009) *The Matthew Effect*. New York: Columbia University Press.

Siraj, I., Mayo, A. (2014) *Social Class and Educational Inequality : The Impact of Parents and Schools*. Cambridge: CUP.

Thompson, N. (2011) *Promoting Equality: Working with Difference and Diversity*. Basingstoke: Palgrave Macmillan.

Pellach

Alexander, R. (2010) *Children, their World, their Education*. London: Routledge.

Brett, P., Mompont-Gaillard, P., & Salema, M. H. (2009). *How all teachers can support citizenship and human rights education: A framework for the development of competencies*. Strasbourg: Council of Europe Publishing.

Evans G, (2016) *A Class Apart: Learning the Lessons of Education in post-devolution Wales*. Cardiff: Welsh Academic Press.

Children's Rights: a Teacher's Guide available at:

<http://www.savethechildren.org.uk/resources/online-library/childrens-rights-a-teachers-guide>

ESTYN (2012) *Effective Practice in Tackling Poverty and Disadvantage in Schools* available at:

<http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/140211-effective-practice-in-tackling-poverty-and-disadvantage-in-schools-en.pdf>

Jenkins, G. & Williams, M. (eds) (2000) Let's do our best for the ancient tongue. *The Welsh language in the twentieth century*. Cardiff: University of Wales Press.

Kerr, K., Dyson, A. and Raffio, C. (2014) *Making the Local Matter*. Bristol: Policy Press.

Nelson, T. (2015). *Handbook of prejudice, stereotyping, and discrimination*. Hove: Psychology Press.

Scottish Government: National Improvement Framework for Scottish Education – achieving excellence and equity, 2016. <http://www.gov.scot/Publications/2016/01/8314>

Smith, E. (2012) *Key Issues in Education and Social Justice*. London: Sage.

Sternberg R & Krauss G (eds) (2014) *Handbook of Research on Entrepreneurship and Creativity*. Cheltenham UK and Massachusetts USA: Edward Elgar Publishing.

Sternberg, R (ed) (2011) *Handbook of Creativity*. Cambridge: Cambridge University Press.

Williams, C.H. (ed.) (2000) *Language Revitalization: Policy and Planning in Wales*. Cardiff: University of Wales Press.

Welsh Government (2007) *Defining schools according to Welsh medium provision*. Cardiff: Welsh Government.

Welsh Government (2010). *Welsh Medium Education Strategy*. Cardiff: Welsh Government.

Welsh Government (2013) *One language for all. Review of Welsh second language at Key Stages 3 and 4. Report and recommendations*. Cardiff: Welsh Government.

Welsh Government (2014) *A living language: a language for living – Moving forward*. Policy Statement. Cardiff: Welsh Government.

Whalley, M. (2007) *Involving Parents in their Children's Learning*, London: Paul Chapman Publishing.